CYLCHLYTHYR YSGOL DEWI SANT

CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL I DEULUOEDD YR YSGOL
WEEKLY FAMILY NEWSLETTER

06.09.24

Croeso nôl

Croeso cynnes yn ôl i bawb. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y gwyliau. Croeso cynnes i staff a disgyblion newydd sy'n ymuno a ni flwyddyn yma!

Welcome back to all the staff and pupils. We hope you have had a fun-filled summer! A warm welcome to new staff and pupils who are joining us this year!

Welcome back!

@YsgolDewiSant @Ysgoldewisant @YsgolDewiSant

Croeso Welcome

Annwyl Rieni a Gwarcheidwaid,

Wrth i ni baratoi i ddechrau blwyddyn ysgol newydd, hoffwn estyn croeso cynnes i chi a'r plant yn ôl ar gyfer tymor newydd. Mae'n gyfnod cyffrous, llawn cyfleoedd a heriau newydd i'n disgyblion wrth iddynt gamu ymlaen yn eu taith ddysgu.
Mae'r staff wedi bod yn brysur yn cynllunio ac yn paratoi i ddarparu'r addysg orau bosib i'ch plant. Rydym yn adolygu ein cwricwlwm yn barhaus i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer anghenion pob plentyn ac yn parhau i gynnig amgylchedd dysgu cefnogol a chynhwysol.
Hoffwn eich atgoffa o bwysigrwydd cefnogaeth gartref wrth i'r plant ddychwelyd i'r ysgol. Mae'n hanfodol bod ein plant yn cael eu hannog i fynychu'n rheolaidd, bod amser yn cael ei neilltuo ar gyfer datblygu sgiliu darllen, a bod plant yn cyrraedd yn brydlon bob dydd yn barod i ddysgu.
Rydym yn deall y gall dechrau blwyddyn ysgol newydd fod yn amser pryderus i rai plant a theuluoedd. Felly, rydym bob amser yma i gefnogi ac i sicrhau trosglwyddiad esmwyth yn ôl i'r ysgol. Os oes gennych unrhyw bryderon neu os ydych angen cymorth ychwanegol, mae croeso i chi gysylltu â ni ar unrhyw adeg.
Mae gennym dymor llawn gweithgareddau cyffrous a rydym yn edrych ymlaen at weld ein disgyblion yn tyfu a datblygu yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth barhaus i'n hysgol a'n cymuned ddysgu.

Dear Parents and Guardians,

As we prepare to begin a new school year, I would like to extend a warm welcome to you and your children back to school for the new term. It's an exciting time, full of new opportunities and challenges for our pupils as they continue their learning journey.
Our staff have been busy planning and preparing to ensure everything is ready to provide the best possible education for our pupils. We review our curriculum continuously to ensure it meets the needs of every child and continues to offer a supportive and inclusive learning environment.
I would like to remind you of the importance of home support as the children return to school. It is essential that children are encouraged to attend regularly, time is set aside for homework, and that children arrive punctually every day, ready to learn.
We understand that the start of a new school year can be an anxious time for some children and families. Therefore, we are always here to support and ensure a smooth transition back to school. If you have any concerns or need additional support, please feel free to contact us at any time.
We have a full term of exciting activities planned and we look forward to seeing our pupils grow and develop over the coming year.

Thank you very much for your continued support of our school and learning community.

Cyfarfod ein staff newydd
Meet our new staff members

Miss Elin Davies



Rydym wedi croesawu Miss Elin Davies i'r tîm fel ein Harweinydd Cyfnod Sylfaen newydd. Mi fydd Miss Davies hefyd yn dysgu ym mlwyddyn l.

This week we have welcomed Miss Elin Davies to the team as she begins her role as Foundation Phase Leader. Miss Davies will also be teaching in Year l.

Miss Rhiannon



Rydym wedi croesawu Miss Rhiannon fel cymhorthydd i'r Cyfnod Sylfaen. Mae Miss Rhiannon yn gyn-ddisgybl i Ysgol Dewi Sant, felly rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ei bod yn defnyddio ei sgiliau Cymraeg o fewn Byd gwaith!

This week we have welcomed Miss Rhiannon as a new teaching assistant on the Foundation Phase. Miss Rhiannon is a past pupil of Ysgol Dewi Sant, we are thrilled that she is using her Welsh skills within the world of work!

Bydd cwmni Tempest yma ar Ddydd Llun 21/10/2024 i dynnu lluniau unigol disgyblion Derbyn i Flwyddyn 6. Os ydych eisiau llun teulu (brodyr a chwiorydd -nid cefndryd), gadewch i ni wybod yn y swyddfa.

Tempest will be here on Monday 21/10/2024 to take school photos of pupils in Reception to Year 6. If you would like a family photo (siblings not cousins), please contact the school office.



Os oes gennych unrhyw luniau a hoffech weld yn y cylchlythyr sy'n dathlu llwyddiannau eich plentyn tu allan i'r ysgol - gyrrwch neges a llun i'r athro / athrawes dosbarth trwy Class Dojo neu i'r swyddfa: dewi.sant@denbighshire.gov.uk

If you have any pictures / messages celebrating your child's successes outside school please send the picture and message to the class teacher via Class Dojo or to the office: dewi.sant@denbighshire.gov.uk

Os oes gan eich plentyn unrhyw alergeddau bwyd, rhowch wybod ohonynt i athro/athrawes dosbarth er mwyn i ni fel staff a staff ffreutur fod yn ymwybodol - Diolch

If your child has any food allergies, please could you let the class teacher know so that themselves and the kitchen staff are aware - Thank you

Llongyfarchiadau

Da iawn i'r canlynol am lwyddo ym myd Cerddoriaeth yn ddiweddar trwy wneud mor dda mewn arholidau drymiau; Abigail, William H, Wil M a Xander! Da iawn chi. A diolch i Mr Ben Neal am eich dysgu trwy wasanaeth Cerdd Cyd-weithredol Sir Ddinbych

Well done to the following pupils on their recent success in the world of music. They have all received wonderful results following drum exams! Well done to Abigail, William H, Wil M and Xander. A big thank you to Mr Ben Neal who teaches them to play through Denbighshire Music co-operation.

Ymunwch a'r Urdd! Join the Urdd!

Mae aelodaeth yr Urdd 2024-25 ar agor ac mae croeso mawr i bawb ymuno!

Membership for the Urdd 2024-25 is now open and everyone is welcome to join!



Llongyfarchiadau!



Da iawn i Bradley am gwblhau her ddarllen Crefftwyr Campus dros y gwyliau haf!
Well done to Bradley for completing the Marvellous Makers reading challenge over the summer holidays!

Da iawn i Aled am gwblhau'r Sialens Darllen yn ystod gwyliau'r haf. Mae Aled wedi mwynhau darllen llyfrau Cymraeg.
Well done to Aled for completing the reading challenge over the summer holidays! Aled has really enjoyed reading the Welsh books.



Mae blwyddyn 2 wedi bod yn brysur wythnos yma yn trafod teimladau/emosiynau gwahanol. Maent wedi creu gwyneb gyda deunyddiau naturiol ac hefyd wedi braslunio hunan bortread.

Year 2 have been busy this week discussing different feelings/emotions. They have created a face with natural materials and have also sketched a self portrait.






NOSON AGORED

OPEN EVENING

DYDD LLUN 16.09.24 MONDAY

4:00 - 5:30 YP/PM







Cyfle i rieni presenol gyfarfod athro/awes newydd eich plentyn.

An opportunity for current families to meet your child's new class teacher.

Cyfle i deuluoedd sy'n ystyried yr ysgol fel opsiwn i'w plant ddod i'n gweld.

An opportunity for families who are considering Ysgol Dewi Sant as an option to come see the school and meet the staff

@YsgolDewiSant

ysgoldewisant

Ysgol Dewi Sant

Croeso cynnes i bawb

A warm welcome to everyone

TYMOR YR HYDREF
AUTUMN TERM

Digwyddiad / Event	Dyddiad / Date
Diwrnod hyfforddi staff Staff training day	**02/09/2024** **03/09/2024** **04/11/2024**
Cychwyn tymor i'r disgyblion Term start for pupils	Dydd Mercher **04/09/2024** Wednesday
Hanner tymor Autumn half term	**28/10/2024** - hyd at/until - **01/11/2024**
Gwyliau Nadolig Christmas Holidays	**23/12/2024** - hyd at/until - **03/01/2024**
Diwedd tymor End of term	Dydd Gwener **20/12/2024** Friday

NODYN ATGOFFA / REMINDER

- Mae'r drysau yn agor am 8:40yb pob bore / The doors open at 8:40am every morning.
- Safle dim cŵn / No dogs allowed on the site.
- Safle dim ysmygu / No smoking on site..
- Os mae'r giatiau gwyrdd ar gau ar ddiwedd y dydd - golygir hyn bod y maes parcio yn llawn / If the green gates are closed at the end of the day it means the car park is full.



St. Ann's Church

Rhyl

Invites you to



On Sunday

8th September

@ 3pm-5pm

This is a family/All age time with


Fun Crafts Food Story Song

Theme: New Beginnings

Bring your school bag with you for a special blessing

For more information contact Revd Janice on 01745 444356 or on FaceBook

Siopa yn ASDA?



WE'RE WORKING WITH ASDA, WHO ARE MAKING MILLIONS OF POUNDS AVAILABLE TO EVERY STATE PRIMARY SCHOOL'S PTA IN THE UK.

BETWEEN 2ND SEPTEMBER AND 30TH NOVEMBER 2024, EVERY TIME CUSTOMERS SHOP WITH ASDA USING THEIR REWARDS APP, THEY CAN CHOOSE A PRIMARY SCHOOL TO RECEIVE A PERCENTAGE OF THEIR SPEND. AND THAT'S NOT ALL — EVERY TIME A CUSTOMER CHOOSES YOUR PRIMARY SCHOOL, ASDA WILL DONATE £1 TO YOUR SCHOOL'S CASHPOT, PLUS A FURTHER £50 WHEN YOUR FIRST CUSTOMER SHOPS.